# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 01.08.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Annwen Hughes ac Angela Russell

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Mewn perthynas â'r cais cyntaf, nododd y Cynghorydd Louise Hughes ei bod yn chwaer yng nghyfraith i'r Cynghorydd Annwen Hughes a oedd yn aelod o'r is-bwyllgor.

**2. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – BRACKENHURST HOUSE, FFORDD Y BRYN, FAIRBOURNE**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Brackenhurst House, Ffordd y Bryn, Fairbourne:** Mrs Susan Brittain (Ymgeisydd) a Mr C. Brittain

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru) a'r Heddwas Gareth Edwards

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** D. Duckhouse, D. Hatchell, J.M. Brown, P. Wilkes, G. Baker, Colin Nepson, Howard Starkey, N. Baker, R. Telford, R. Clark, A. Clark, C. Marshall, Barbara Marshall

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Louise Hughes

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion am y cais gwreiddiol a dderbyniwyd ar ran Brackenhurst House, Ffordd y Bryn, Fairbourne am drwydded eiddo i werthu alcohol a darparu gweithgareddau trwyddedig i breswylwyr sy'n aros yn yr eiddo ac yn achlysurol ar gyfer partion preifat, priodasau, barbeciws a phartion ar ddyddiau gŵyl fel Nos Galan. Nododd bod y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig yn cynnwys gwerthiant alcohol, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, perfformiadau dawns a darparu lluniaeth hwyr. 'Roedd yr oriau y gofynnwyd amdanynt ar gyfer cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, perfformiadau dawns a gwerthiant alcohol rhwng 12.00 a 01.00 dydd Sul i ddydd Iau, rhwng 12.00 a 01.30 dyddiau Gwener a Sadwrn a rhwng 12.00 a 03.00 ar ddyddiau gŵyl gyda'r oriau ar gyfer darparu lluniaeth hwyr rhwng 23.00 a 01.00 dydd Sul i ddydd Iau, rhwng 23.00 a 01.30 dyddiau Gwener a Sadwrn a rhwng 23.00 a 03.00 ar ddyddiau gŵyl. Byddai'r oriau'n agored i'r cyhoedd rhwng 12.00 a 01.30 dydd Sul i ddydd Iau, rhwng 12.00 a 02.00 dyddiau Gwener a Sadwrn a rhwng 12.00 a 03.30 ar ddyddiau gŵyl. Deellir bod yr ymgeisydd erbyn hyn wedi diwygio'r cais i ganiatau gwerthu alcohol i breswylwyr yn unig tan hanner nos a dileu'r elfennau eraill megis cerddoriaeth fyw a.y. o'r cais.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan yr Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub (gydag amodau) na'r Gwasanaeth Cynllunio. Ni dderbyniwyd ymateb gan yr aelod lleol, y cyngor cymuned na Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Derbyniwyd llythyrau gan rhai o'r trigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais.

Nododd y swyddog y cynhaliwyd cyfarfod cymodi pryd y gwahoddwyd yr ymgeisydd a'r rhai a wrthwynebodd y cais i drafod y cais gyda swyddogion trwyddedu'r Cyngor a swyddog trwyddedu'r heddlu. Cynhelir cyfarfodydd o'r fath dan y gyfundrefn drwyddedu er mwyn ceisio lleddfu pryderon gwrthwynebwyr a rhoddi cyfle i ymgeiswyr gynnig cyfaddawd ar yr hyn y gofynnir mewn ymateb i bryderon. Mae cyfarfodydd cymodi llwyddiannus yn osgoi'r angen i gyfeirio cais i is-bwyllgor. Yn dilyn y cyfarfod cymodi fe gyflwynodd yr ymgeisydd gyfaddawd sef diwygio'r cais i ganiatau gwerthu alcohol i breswylwyr yn unig, tan hanner nos. Fodd bynnag, ni chafwyd cytundeb unfrydol ymysg y gwrthwynebwyr i dderbyn y cyfaddawd hwn ac oherwydd hynny, cyfeiriwyd y cais i sylw'r is-bwyllgor.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii. Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd yr ymgeisydd y diwygiwyd y cais erbyn hyn sef i werthu alcohol i'r preswylwyr yn unig rhwng 12.00 a 00.00 ac ni fwriedir mynd rhagddo â'r elfennau eraill fel cerddoriaeth fyw a.y. a gynhwyswyd yn y cais gwreiddiol.
.
Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd Mr Ian Williams Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu nad oes gan yr heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Bod y ffordd a arweiniai at yr eiddo yn serth ac yn hynod o gul gyda un man pasio yn unig ar hyd y ffordd. Nodwyd bod rhai gyrrwyr cerbydau yn gorfod tynnu i fyny ym mynedfeydd rhai o'r tai sydd ar y ffordd i alluogi cerbydau eraill i basio.
- Oherwydd culni'r ffordd, 'roedd angen ar adegau i gerbydau fagio i lawr i'r briffordd gerllaw a rhagwelai ddamwain yn digwydd yn enwedig os nad yw rhai gyrrwyr yn gyfarwydd â'r ffordd.
- Ei bod yn ffordd preifat ac felly nid yw wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor. Nodwyd bod y trigolion yn cyfrannu tuag at waith cynnal a chadw'r ffordd.
- Ei bod yn ardal breswyl ac yn un ddistaw ac y byddai sŵn o'r eiddo yn debygol o amharu ar fwynderau'r trigolion cyfagos.
- Dim darpariaeth parcio digonol i breswylwyr yr eiddo gyda'r canlyniad y bydd rhai o'r cerbydau'n gorfod parcio ger eiddo eraill cyfagos.
- Pe caniateir y cais, datganwyd pryder efallai y cyflwynir cais pellach gan yr ymgeisydd i wyro'r drwydded.
- Y darperir gwely a brecwast yn unig yn yr eiddo ac felly gan na ddarperir bwyd nos yno ni fyddai angen gwerthu alcohol yn hwyr yn y nos.
- Ni ddarparwyd palmant ar y ffordd sy'n dywyll gan mai ychydig o oleuadau a osodwyd yno ac y byddai caniatau'r cais yn creu mwy o drafnidiaeth ar y ffordd hon.

- Cyfeiriwyd at drafferthion yn y gaeaf pan fydd yr afonig gerllaw yn gorlifo gyda'r canlyniad bod y dŵr ar y ffordd yn gallu rhewi.
- Nad oedd yr ymgeisydd wedi trafod y cais gyda'r trigolion cyfagos.

Mewn ymateb i rhai o'r sylwadau uchod, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol –

- Mewn perthynas â'r ffordd, 'roedd o'r farn na fyddai cerbydau gwesteion yn dod i'w eiddo yn gwneud unrhyw wahaniaeth i ddefnydd y ffordd.
- Parthed diogelwch ar y ffordd, rhagwelai y byddai'r gwesteion yn aros yn yr eiddo i gael bwyd yn hytrach na mynd i'r pentref agosaf a byddai hynny'n debygol o leihau'r drafnidaieth ar y ffordd. Nododd y bwriedir dechrau darparu bwyd nos yn ystod yr wythnosau nesaf.
- Ei fod yn cyfrannu tuag at y gost o gynnal a chadw'r ffordd.
- Gan y diwygiwyd y cais, nid oes unrhyw fwriad i gael cerddoriaeth fyw a.y. yn yr eiddo gan bod y cais erbyn hyn ar gyfer gwerthu alcohol i breswylwyr yn unig.
- Bod darpariaeth parcio ar gyfer pedwar o gerbydau yn y maes parcio sy'n gysylltiedig â'r eiddo.
- Gan y ceisir caniatâd i werthu alcohol i'r preswylwyr yn unig, ni rhagwelai unrhyw drafferthion o safbwynt sŵn yn dod o'r eiddo.

Hysbysodd yr Heddwas Gareth Edwards ei fod yn gyfarwydd â'r ffordd a arweiniai at yr eiddo. Cydnabu ei bod yn ffordd gul ac oherwydd hefyd ei bod yn ffordd breifat, nid oes gan yr heddlu yr un pwerau os digwydd i ddamwain ddigwydd o'i gymharu â phwerau i ymdrin â damwain ar briffordd. Nododd bod agweddau diogelwch yn bodoli oherwydd culni''r ffordd ond efallai na fyddai'r cais hwn yn effeithio'n sylweddol ar hynny.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

'Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod diogelwch y cyhoedd yn egwyddor pwysig iawn yn gysylltiedig â'r cais hwn gan nad oes goleuadau digonol ar y ffordd; dim palmant; y ffordd yn gul, serth ac heb ei mabwysiadu a dim rheolaeth felly gan yr Heddlu na'r Adran Priffyrdd. Byddai caniatau'r cais yn ychwanegu at y drafnidiaeth ar y ffordd. Yn ogystal, ni fyddai'n bosibl cael rheolaeth ar werthu alcohol i breswylwyr yr eiddo'n unig. 'Roedd y drwydded preswyl blaenorol a ganiatwyd yn weithredol pan oedd rheolau gwahanol yn bodoli ar gyfer y Ddeddf Trwyddedu.

**PENDERFYNWYD am y rhesymau uchod, i wrthod y cais.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**3. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – CO-OPERATIVE, HEOL YR ORSAF, ABERMAW**

<u>**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod**</u>**:**

**Ar ran Co-operative, Heol yr Orsaf, Abermaw:** Mr Richard Arnot a Mr Alan Cooper

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ymddiheuriad**: Y Cynghorydd Gethin Williams (aelod lleol)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Co-operative, Heol yr Orsaf, Abermaw i wyro trwydded i ganiatau ymestyn oriau gwerthiant alcohol ac oriau agor i'r cyhoedd rhwng 06.00 a 23.00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, sef dwy awr yn gynt yn y bore.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Ni dderbyniwyd ymateb gan y trigolion cyfagos, y Gwasanaeth Cynllunio na Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. 'Roedd Cyngor Tref Abermaw yn gwrthwynebu'r cais. 'Roedd yr aelod lleol wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais.

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

vii. Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi'r cais, tynnwyd sylw gan gynrychiolydd ar ran y cwmni mai Cyngor Tref Abermaw oedd yr unig wrthwynebiad ar y sail y byddai caniatau'r cais yn debygol o annog ymddygiad gwrth-gymdeithasol ac nad oedd yn rhesymol i bobl allu prynu alcohol am 06.00. Cysylltodd â'r cyngor tref parthed eu gwrthwynebiad ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb. Nododd hefyd nad oedd gan yr heddlu wrthwynebiad i'r cais.

Nid oedd cynrychiolydd y cyngor tref yn bresennol i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr.

Gan nad oedd gwrthwynebiad i'r cais gan yr heddlu ac nad oedd cynrychiolydd o'r cyngor tref wedi presennoli ei hun yn y cyfarfod, cytunodd yr Is-bwyllgor i ganiatau gwyro'r drwydded.

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Co-operative, Heol yr Orsaf, Abermaw fel a ganlyn –**

**a) Caniatau gwerthu alcohol dan baragraff M fel a ganlyn –**
- **Dydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 06.00 a 23.00**
- **Dydd Sul rhwng 10.00 a 22.30**

**b) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd dan baragraff O fel a ganlyn -**
- **Dydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 06.00 a 23.00**
- **Dydd Sul rhwng 10.00 a 16.00**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**4. EITEM FRYS – RHYBUDDION DIGWYDDIADAU TROS DRO – BALA PIZZERIA, 4 STRYD TEGID, BALA**

(Cytunodd y Cadeirydd dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gynnwys yr eitem hon fel eitem frys oherwydd bod angen gweithredu'n ddiymdroi)

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Bala Pizzeria, 4 Stryd Tegid, Bala:** Mr Maseoud Anafcheh (Ymgeisydd) a Ms Moira Mai

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu y derbyniwyd pump o Rybuddion Digwyddiad Tros Dro ar 19 Gorffennaf 2012 mewn perthynas â Bala Pizzeria, 4 Stryd Tegid, Bala. Mae'r rhybuddion hyn yn datgan bwriad yr ymgeisydd i ymestyn yr oriau agor ar gyfer gwerthiant lluniaeth hwyr y nos o 01.00 sydd ar ei drwydded bresennol i 03.00, Sadwrn a Sul ar gyfer y penwythnos olaf yng Ngorffennaf 2012 a phob penwythnos drwy fis Awst 2012. Derbyniwyd e-bost gan yr heddlu yn gwrthwynebu'r pump digwyddiad rhag cymryd lle oherwydd tystiolaeth o danseilio'r amcan trwyddedu o rwystro trosedd ac anrhefn. Anfonwyd gwrth-hysbysiad (counter notice) i'r ymgeisydd yn gwrthwynebu'r digwyddiad yn y rhybudd cyntaf a oedd yn gofyn am ymestyn yr oriau ar 28 a 29 Gorffennaf 2012 ar y sail yr ystyrir y cais fel rhybudd hwyr gan na'i derbyniwyd o fewn 10 diwrnod gwaith llawn o ddyddiad cyntaf y digwyddiad. Ystyrir y pedwar rhybudd arall fel Rhybuddion Digwyddiad Safonol ac oherwydd hynny mae'n ofynnol cyfeirio unrhyw wrthwynebiad perthnasol gan awdurdodau cyfrifol i'r is-bwyllgor hwn ar gyfer gwrandawiad brys.

Ymgynghorwyd â'r aelod lleol a datganodd bod ymddygiad gwrth-gymdeithasol mewn perthynas â'r eiddo hwn yn bryder yn lleol a'i fod yn cefnogi gwrthwynebiad yr heddlu i'r pump digwyddiad tros dro.

Adroddodd Mr Ian Williams. Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu ar y ceisiadau am Rybuddion Digwyddiadau Tros Dro a dderbyniwyd i ymestyn oriau agor yr eiddo o 01.00 hyd 03.00 ar benwythnosau 4 a 5 Awst, 11 a 12 Awst, 18 a 19 Awst a 25 a 26 Awst 2012. Derbyniwyd cais hefyd ar gyfer penwythnos 28 a 29 Gorffennaf 2012 ond oherwydd ei fod yn gais hwyr, gwrthwynebwyd y cais ac anfonodd y Cyngor gwrth-hysbysiad i'r ymgeisydd yn ei hysbysu o hynny. Fodd bynnag, ymwelodd Swyddogion Gorfodaeth y Cyngor â'r eiddo am 01.50 ar 29 Gorffennaf 2012 pryd y canfuwyd bod yr eiddo'n parhau i ddarparu bwyd poeth i gwsmeriaid. Nododd bod trwydded gyfredol yr eiddo yn caniatau darparu lluniaeth hwyr y nos hyd 01.00 ar nosweithiau Gwener a Sadwrn gyda'r eiddo'n cau i'r cyhoedd am 01.30.

Mae'r heddlu'n gwrthwynebu'r ceisiadau yn bennaf dan yr amcan atal trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus. Derbyniwyd cwynion gan drigolion lleol parthed ymddygiad cwsmeriaid yn ymgynnull tu allan i'r eiddo hwn yn ystod oriau mân y bore, weithiau tan 03.00 neu 04.00 ac hyd yn oed tan 05.00.

Nododd bod galwadau penodol ar 27 Mai a 4 Mehefin 2012 yn adrodd bod yr eiddo'n parhau i werthu pizzas am 03.10 a 01.30 gyda cwsmeriaid yn eistedd tu allan yn bwyta'r bwyd. 'Roedd galwad pellach ar 4 Mehefin 2012 yn adrodd bod anhrefn yn Stryd Tegid hyd at 05.00. Derbyniwyd galwadau eraill am 02.55 ar 10 Mehefin 2012, am 03.45 ar 15 Gorffennaf 2012 ac am 03.40 ar 29 Gorffennaf 2012 yn cyfeirio'n bennaf at ymddygiad cwsmeriaid yn dod allan o Adeilad y Cwrt ac yn ymgynnull yn Stryd Tegid. Mae'r ymgeisydd hefyd yn gyfrifol am Adeilad y Cwrt a leolwyd drws nesaf i'r Pizzeria sydd â thrwydded hyd at 03.00 ond ddim i ddarparu lluniaeth hwyr y nos ar ôl 23.00. Tynnodd sylw bod yr ymgeisydd yn llwyr anwybyddu'r oriau cyfredol ar ei drwydded ac yn ôl y trigolion lleol yn agor yn gyson tu hwnt i'w oriau. Derbyniwyd

galwadau hefyd gan breswylwyr gwesty cyfagos yn cwyno am ymddygiad unigolion tu allan i'r eiddo hwn ac Adeilad y Cwrt ac 'roedd hyn yn amlwg yn effeithio ar fusnes y gwesty.

Nododd ymhellach i'r ymgeisydd gael Rhybudd Tros Dro ar 19 a 20 Awst 2011 hyd at 01.00 a phan ymwelodd Swyddog Gorfodaeth y Cyngor a'r eiddo am 01.30, 'roeddynt yn parhau i ddarparu lluniaeth.

Ymwelodd Swyddogion Gorfodaeth y Cyngor a'r eiddo ar 8 Mehefin 2012 ac am 01.50 'roedd yr eiddo'n gwerthu bwyd poeth. Nododd y deellir y gosodwyd arwydd yn y Pizzeria yn cyfeirio cwsmeriaid i Adeilad y Cwrt i archebu pizzas ond nid oes trwydded yno i ddarparu lluniaeth hwyr y nos.

'Roedd o'r farn, os caniateir y ceisiadau hyn, na fydd yr ymgeisydd yn cadw at yr oriau ac y byddai hyn yn sicr o arwain at gynnydd mewn niwsans cyhoeddus i drigolion lleol yn Stryd Tegid.

Mewn ymateb i rhai o'r sylwadau uchod, nododd yr ymgeisydd –

- Bod llawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr heddlu'n anghywir.
- Y cyfeiriwyd cwsmeriaid un penwythnos o'r Pizzeria i Adeilad y Cwrt i gael lluniaeth oherwydd bod yr eiddo hwnnw'n agor yn hwyrach.
- Iddo symud ei fusnes o Stryd Berwyn i Stryd Tegid a'i fod angen yr un oriau yn y fan honno.
- Nad oedd yn derbyn yr honiad bod yr ymddygiad gan unigolion tu allan i'w eiddo yn cael ei achosi gan ei gwsmeriaid.
- Bod yr heddlu'n archwilio ei system teledu cylch cyfyng yn eithaf rheolaidd.
- Ei fod yn cydnabod nad oedd wedi cydymffurfio â rhai agweddau o amodau'r drwydded e.e. nid oedd yn ymwybodol nad oedd ganddo hawl i werthu lluniaeth hwyr y nos ar ôl 23.00 yn Adeilad y Cwrt.

O ystyried gwrthwynebiad yr heddlu i'r rhybuddion hyn ac ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd ganddynt, 'roedd yr is-bwyllgor yn cefnogi eu gwrthwynebiad.

**PENDERFYNWYD gwrthod y ceisiadau am Rybuddion Digwyddiadau Tros Dro ac anfon gwrth-hysbysiad i'r ymgeisydd ar gyfer y pedwar digwyddiad.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 2.00pm